
# Gwobrau Cynllun Teithio Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk









## Cynllun **Cydnabod** a **Gwobrwyo**



# Cyflwyniad

Mae cynllun Gwobrau Cynllun Teithio Cymru yn cydnabod arfer gorau a rhagoriaeth ym maes cynlluniau teithio. Mae'r cynllun yn agored i bob sefydliad, yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, a datblygiadau newydd lle mae tystiolaeth eglur o ymrwymiad parhaus i gynlluniau teithio.

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio'r gwahanol lefelau, y meini prawf ar gyfer pob lefel, sut i wneud cais a pha gymorth sydd ar gael i'ch helpu drwy'r broses. O'r cwmni rhyngwladol mwyaf i'r busnes lleol lleiaf, bydd y cymorth a gewch wedi'i deilwra i'ch gofynion chi.

Gall cynlluniau teithio hefyd roi tystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer safonau a gwobrau eraill, megis:

- Safon Iechyd Gorfforaethol – e.e. teithio llesol a rhannu ceir
- Buddsoddwyr mewn Pobl – Cyfathrebu â gweithwyr
- Y Ddraig Werdd/ ISO140001 – Effaith amgylcheddol
- BSI PAS500:2008 Manyleb genedlaethol cynlluniau teithio

# Beth yw Cynllun Teithio

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi arweiniad sylfaenol i'r hyn y dylid ei gynnwys, ond cysylltwch â Chydgysylltydd rhanbarthol y Cynllun Teithio a'r partneriaid a all eich cefnogi drwy'r broses.

Mae cysylltiad agos rhwng Gwobrau Cynllun Teithio Cymru a Manyleb Genedlaethol Cynlluniau Teithio Gweithleoedd (PAS 500:2008), fydd yn ei gwneud yn haws i'r sefydliadau hynny sydd â diddordeb mewn gwneud cais am y safon genedlaethol.

Cyfres o fesurau yw cynllun teithio sy'n gwella dewisiadau teithio, ac yn cynnig mynediad mwy cynaliadwy i bawb. Dylai gynnwys cymysgedd o fentrau ar gyfer llwyddiant sydd wedi'u teilwra i'r sefydliadau a gallent gynnwys rhannu ceir, hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus, beicio, cerdded a chefnogi arferion gweithio amgen.

Mae gweithredu cynllun teithio yn cynnig manteision i bawb, megis:

- **Y gweithiwr/gweithiwr posibl** – ffordd fwy llesol o fyw, dewisiadau teithio mwy cynaliadwy sy'n dibynnu llai ar fod yn berchen ar gar, arbedion cost.
- **Y cyflogwr** – mae tystiolaeth bod lefelau is o salwch staff drwy annog teithio llesol, llai o staff yn gadael oherwydd gwell mynediad at y safle, llai o broblemau parcio gan staff, lefelau ysgogiad staff yn well drwy well cyfathrebu o'r ddwy ffordd.
- **Y gymuned leol** – posibilrwydd o leihau tagfeydd ar y safle ac o'i chwmpas, llai o broblemau parcio ar y safle a'r strydoedd cyfagos, llai o lygredd aer a sŵn o gwmpas y safle.

Fel yn achos pob cynllun sydd wedi'i ystyried yn drwyadl mae'r cynllun teithio ar ffurf dogfen ysgrifenedig sy'n amlinellu'r canlynol:

- **'Pam'** – sef diffinio'r nodau a'r amcanion. Gallai enghreifftiau fod yn rhai amgylcheddol, yn arbedion cost, yn broblemau parcio ceir, yn rhan o gais cynllunio, yn ffordd o leihau salwch a llawer mwy. Dyma'r adran yn y ddogfen fydd yn amlinellu'r materion rydych chi am roi sylw iddynt a'r manteision posibl o weithredu'r cynllun teithio.
- **'Pwy'** – y bobl y bydd angen iddynt fod yn rhan o'r broses er mwyn i chi lwyddo. Enghreifftiau o hyn fyddai cefnogaeth uwch reolwyr, ynghyd ag enw'r unigolyn fydd wedi'i bennu yn berchennog parhaus gwaith y cynllun teithio, a elwir fel arfer yn swyddog cynllun teithio. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn dylid sefydlu grŵp llywio i oruchwylio'r gwaith o gyflawni camau gweithredu ac amcanion y cynllun teithio. Dylid sicrhau tystiolaeth o gyfathrebu effeithiol yn ymwneud â'r cynllun teithio ar bob lefel o'r wobr.

- **'Sut'** – bydd cynllunio'r camau y mae angen i chi eu cymryd er mwyn cyflawni cynllun teithio yn sicrhau ei fod yn effeithiol. Mae dull wyth cam y cynllun teithio wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae gweithdai rhyngweithiol ar gael i'r rhai sydd am ymarfer sgiliau mewn amgylchedd damcaniaethol. Mae'r sesiynau hyfforddi undydd hyn ar gael drwy eich Cydgysylltydd rhanbarthol ar gyfer y Cynllun Teithio.
- **'Pryd'** – mae angen amserlenni gweithredu a thargedau ar bob cynllun teithio cynaliadwy. Y ffordd hawsaf o sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni yw ysgrifennu cynllun gweithredu yn enwi'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni amserlenni y cytunwyd arnynt. Fel arfer caiff cynlluniau gweithredu eu hysgrifennu ar ôl i'r holl wybodaeth gael ei chasglu e.e. arolygon safle, arolygon staff ac ati. Dylai'r cynllun gweithredu ddangos gostyngiad yn nifer y teithiau un gyrrwr yn unig, a chynnydd o ran arferion gweithio a theithio cynaliadwy.
- **'Beth'** – mae gofyn ymrwymiad er mwyn cyflawni pob lefel o'r wobr, felly er mwyn cydnabod hynny mae pedair lefel o wobr i gyrraedd atynt, sef efydd, arian, aur a phlatinwm. Caiff pob cynllun teithio a gyflwynir i Gydgysylltwyr Rhanbarthol y Cynllun Teithio eu mesur yn ôl meini prawf penodol ar gyfer y wobr honno.

# Meini Prawf y Gwobrau

## Gwobr Lefel Efydd

I wneud cais am y wobr lefel **Efydd** rhaid i'r sefydliad fod wedi cyflawni'r canlynol:

1) Sicrhau cefnogaeth uwch reolwyr a darparu tystiolaeth.
2) Pennu unigolyn penodol a elwir fel arfer yn swyddog cynllun teithio i fwrw ymlaen â mesurau'r cynllun teithio, a bod yn brif gyswllt ar gyfer y cynllun teithio yn y sefydliad. Er mwyn cefnogi'r swyddogaeth hon mewn sefydliad mwy dylid sefydlu grŵp llywio cynllun teithio.
3) Amlinellu nodau ac amcanion eglur yn cyflwyno'r problemau sydd angen sylw, a'r manteision y dylai'r cynllun teithio eu creu.
4) Cynnal archwiliad safle yn cynnwys gwybodaeth ar fynediad i'r safle drwy bob dull trafnidiaeth gan gynnwys a oes parcio beiciau ar gael, cawodydd a mannau sychu, parcio i'r anabl, systemau rheoli meysydd parcio ar waith, gwybodaeth i ymwelwyr, a phatrymau teithio amseroedd brig. Dylid cynnwys arferion gweithio amgen hefyd fel a oes cyfleusterau fideogynadledda a thelegynadledda a pholisi gweithio o gartref.
5) Cynnal arolwg teithio gwaelodlin er mwyn asesu sut mae staff yn teithio ar hyn o bryd, sut yr hoffent deithio, a'r rhwystrau sy'n atal dewisiadau eraill mwy cynaliadwy.
6) Archwiliad o'r safle ac arolygon teithio er mwyn nodi atebion posibl i broblemau presennol ar y safle.
7) Llunio cynllun gweithredu yn amlinellu amcanion penodedig a thargedau CAMPUS. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys mesurau y byddai angen eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni'r targedau a bennir. Ar gyfer rhai mesurau, fel gwell parcio beiciau, baeau rhannu ceir, cawodydd ac ati, byddai angen nodi cyllid penodedig yn y cynllun. Byddai'r cynllun gweithredu hefyd yn cynnwys dyddiadau ar gyfer gwaith monitro ac arolygon yn y dyfodol.
8) Rhaid cyfathrebu â'r staff ynghylch canlyniadau arolygon a'r cynllun gweithredu sy'n deillio o hynny.

Rhoddir gwobrau efydd i gydnabod y ffaith bod sefydliad wedi cwblhau cynllun teithio i'r safon benodedig. Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

- Canlyniadau arolygon staff, myfyrwyr neu'r gymuned er mwyn deall anghenion teithio a materion sy'n codi
- Gosod targedau mesuradwy a realistig ar gyfer newid o ran ymddygiad teithio, newid moddol, damweiniau ac ati, i'w cyflawni dros gyfnod penodol o amser
- Amlinellu gwelliannau neu fesurau a wneir er mwyn helpu gweithwyr, myfyrwyr neu unrhyw ddefnyddiwr i wneud dewisiadau teithio gwell

- Dangos ymrwymiad gan arweinwyr busnes, ysgol neu'r gymuned a thystiolaeth o ymwneud â'r cynllun ar bob lefel yn y sefydliad

Bydd angen cynhyrchu copi o'r cynllun teithio a'i anfon ymlaen at Gydgysylltydd Rhanbarthol priodol y Cynllun Teithio i'w werthuso.

## Gwobr Lefel Arian

I wneud cais am wobr lefel **Arian** byddai'n rhaid i'r sefydliad fod wedi cyflawni'r canlynol:

1) Bod wedi dal y wobr lefel efydd ers blwyddyn.
2) Ail-wneud arolwg staff llawn gan anelu at gyfradd ymateb o 30% o leiaf.
3) Dangos tystiolaeth o fonitro ac adborth ar gynnydd yn erbyn amcanion a amlinellir yn y cynllun gweithredu.
4) Parhau i weithredu llwyddiannau yn erbyn targedau presennol, datblygu mentrau teithio ymhellach a chytuno ar dargedau ar gyfer y dyfodol.
5) Cynhyrchu cynllun gweithredu diwygiedig gyda dyddiadau ar gyfer gwaith monitro ac arolygon yn y dyfodol. Dylai'r cynllun gweithredu hefyd ddangos gostyngiad yn nifer y teithiau un gyrrwr yn unig, a chynnydd o ran arferion gweithio a theithio cynaliadwy.
6) Tystiolaeth bod gwybodaeth ynghylch cynllun gweithredu'r cynllun teithio wedi'i chyfleu i'r staff ar ôl ei ddiweddaru.

Rhoddir gwobrau lefel arian i gydnabod ymrwymiad parhaus i gynlluniau teithio.

Cynhyrchir tystiolaeth o lwyddiant mesuradwy sydd wedi'i fonitro'n dda yn erbyn targedau a osodwyd ers cynhyrchu'r cynllun teithio cychwynnol.

Rhaid i weithrediad y Cynllun Teithio fod wedi arwain at gynnydd o ran arferion gwaith/teithio cynaliadwy a gostyngiad cymesur yn nifer y teithiau un gyrrwr yn unig, yn ogystal â darparu tystiolaeth i gefnogi hynny (gweler PAS 500).

Dangosir ymrwymiad i wella dewisiadau teithio a thrafnidiaeth yn y dyfodol, amlinellir cynlluniau monitro a gosodir targedau ar gyfer gwelliant parhaus. Caiff hyn ei ddangos gan ddefnyddio cynllun gweithredu.

Mae angen tystiolaeth bod aelodau o staff â chyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun Teithio wedi gwneud hyfforddiant ar Gynlluniau Teithio a/neu faterion cysylltiedig (gweler PAS 500).

Dylid dangos ymrwymiad i gynlluniau teithio ar lefel uwch gan gynnwys, lle bo'n briodol, gwneud cysylltiadau sy'n dangos effaith cynlluniau teithio ar gynlluniau busnes strategol.

Rhaid bod gwybodaeth ynghylch y mesurau sydd ar waith fod wedi'i chyfleu i'r holl staff, a rhaid i'r wybodaeth barhau i fod ar gael os bydd rhywun yn gofyn (gweler PAS 500).

Bydd angen cynhyrchu copi o'r cynllun teithio a'i anfon ymlaen at Gydgysylltydd Rhanbarthol y Cynllun Teithio i'w werthuso.

## Gwobr Lefel Aur

Er mwyn gwneud cais am wobr lefel **Aur**, byddai'n rhaid i'r sefydliad fod wedi cyflawni'r canlynol:

1) Bod wedi dal y wobr lefel arian ers blwyddyn.
2) Ailadrodd arolwg staff llawn gan anelu at gyfradd ymateb o 50%.
3) Dangos tystiolaeth o fonitro ac adborth ar gynnydd yn erbyn amcanion a amlinellir yn y cynllun gweithredu.
4) Parhau i weithredu llwyddiannau yn erbyn targedau presennol, datblygu mentrau teithio ymhellach a chytuno ar dargedau ar gyfer y dyfodol.
5) Cynhyrchu cynllun gweithredu diwygiedig gyda dyddiadau ar gyfer gwaith monitro ac arolygon yn y dyfodol. Dylai'r cynllun gweithredu hefyd ddangos gostyngiad yn nifer y teithiau un gyrrwr yn unig, a chynnydd o ran arferion gweithio a theithio cynaliadwy.
6) Tystiolaeth bod gwybodaeth ynghylch cynllun gweithredu'r cynllun teithio wedi'i chyfleu i'r staff ar ôl ei ddiweddaru.

Mae gwobrau lefel aur yn cydnabod rhagoriaeth ranbarthol ac arfer gorau o ran cynlluniau teithio.

Cynhyrchir tystiolaeth o lwyddiant mesuradwy sydd wedi'i fonitro'n dda yn erbyn targedau a osodwyd ers cynhyrchu'r cynllun teithio cychwynnol.

Dangosir ymrwymiad i wella dewisiadau teithio a thrafnidiaeth yn y dyfodol, amlinellir cynlluniau monitro a gosodir targedau ar gyfer gwelliant parhaus. Caiff hyn ei ddangos gan ddefnyddio cynllun gweithredu.

Dylid dangos ymrwymiad i gynlluniau teithio ar lefel uwch gan gynnwys, lle bo'n briodol, gwneud cysylltiadau sy'n dangos effaith cynlluniau teithio ar gynlluniau busnes strategol.

Ar y lefel hon bydd disgwyl i gyfranogwyr ddangos gwaith monitro ardderchog o welliannau parhaus a pharodrwydd i arddangos eu llwyddiannau i'w cyfoedion proffesiynol a heibio i ffiniau'r sefydliad.

Bydd angen cynhyrchu copi o'r cynllun teithio a'i anfon ymlaen at Gydgysylltydd Rhanbarthol y Cynllun Teithio i'w werthuso.

## Gwobr Lefel Platinwm

I wneud cais am wobr flynyddol ar lefel **Platinwm** bydd y sefydliad wedi cyflawni'r canlynol:

1) Bod wedi dal y wobr lefel aur ers blwyddyn o leiaf, neu fod ganddynt wobr platinwm sydd yn cyrraedd diwedd ei hoes.
2) Ailadrodd arolwg staff.

3) Dangos tystiolaeth o fonitro ac adborth ar gynnydd yn erbyn amcanion a amlinellir yn y cynllun gweithredu.
4) Parhau i weithredu llwyddiannau yn erbyn targedau presennol, datblygu mentrau teithio ymhellach a chytuno ar dargedau ar gyfer y dyfodol.
5) Cynhyrchu cynllun gweithredu diwygiedig gyda dyddiadau ar gyfer gwaith monitro ac arolygon yn y dyfodol. Dylai'r cynllun gweithredu hefyd ddangos gostyngiad yn nifer y teithiau un gyrrwr yn unig, a chynnydd o ran arferion gweithio a theithio cynaliadwy.
6) Tystiolaeth bod gwybodaeth ynghylch cynllun gweithredu'r cynllun teithio wedi'i chyfleu i'r staff ar ôl ei ddiweddaru.

Mae'r wobr lefel Platinwm yn wahanol i weddill y gwobrau, gan mai dyma'r unig un y mae'n rhaid gwneud cais amdani yn flynyddol. Gwobr yw hon i'r sefydliadau sy'n dangos gwelliant parhaus flwyddyn ar ôl blwyddyn ac ymrwymiad parhaus i gynlluniau teithio.

Dim ond ar ôl cyrraedd y wobr lefel aur y gellir gwneud cais am y wobr lefel Platinwm.

# Rhestr Wirio Cyflwyno Cynllun Teithio

Dylai ymgeiswyr anfon eu cynllun teithio/cynllun gweithredu ymlaen at Gydgysylltydd Rhanbarthol y Cynllun Teithio, ynghyd â'r rhestr wirio. Cysylltir ag ymgeiswyr gyda phenderfyniad ar lefel y wobr o fewn 28 diwrnod.

Fodd bynnag, dylid nodi bod rhaid i bob sefydliad weithio drwy bob gwobr gan gychwyn gyda'r wobr efydd.

Wrth anfon cais ymlaen ar gyfer gwobrau arian, aur neu blatinwm, does dim angen i ymgeiswyr anfon copi llawn o'r cynllun teithio presennol. Ar y lefelau hyn byddai angen adroddiad cynnydd a chynllun gweithredu ynghyd â thystiolaeth ategol am leihad o ran teithiau un gyrrwr yn unig. Yn ogystal, dylid cynnwys tystiolaeth bod gwybodaeth ynghylch y cynllun teithio a'i fesurau ar gyfer pob lefel o wobr wedi'i chyfleu i'r holl staff.

Dim ond canllaw yw'r rhestr wirio hon gan y bydd gofyn am wybodaeth ychwanegol ar gyfer rhai safleoedd oherwydd effaith y safle ar yr ardal gyfagos.

| Tystiolaeth i'w Chynnwys am y Cynllun Teithio<br>Yn ofynnol ar gyfer lefelau Ef=Efydd, An=Arian, Au=Aur, Pl=Platinwm | Wedi'i chynnwys Ticiwch ✓ |
|---|---|
| Cefnogaeth uwch reolwyr (Ef, An, Au, Pl) | |
| Swyddog cynllun teithio wedi'i nodi a'i enwi (Ef, An, Au, Pl) | |
| Polisi trafnidiaeth presennol (Ef, An, Au, Pl) | |
| Disgrifiad o'r safle (Ef) | |
| Arolwg o'r safle gan gynnwys mapiau, lleoedd parcio, safleoedd beiciau, cawodydd ac ati (Ef) | |
| Polisi rheoli fflyd* (Ef) | |
| Darparu gwybodaeth rhwydwaith trafnidiaeth leol/gwybodaeth bysiau a threnau (Ef, An, Au, Pl) | |
| Tystiolaeth o grŵp llywio/gweithgor (Ef, An, Au, Pl) | |
| Gwybodaeth cynllun teithio blaenorol** (An, Au, Pl) | |
| Data arolwg teithio gweithwyr/ymwelwyr*** (Ef, An, Au, Pl) | |
| Canlyniad arolwg teithio gweithwyr/ymwelwyr*** (Ef, An, Au, Pl) | |
| Ffynonellau o wybodaeth teithio a sut y cyfathrebir â defnyddwyr amdani e.e. Pecynnau croeso, byrddau gwybodaeth ac ati (Ef, An, Au, Pl) | |
| Pecyn o fesurau a gynigir (Ef, An, Au, Pl) | |
| Targedau ar gyfer teithio gweithwyr/ymwelwyr (Ef, An, Au, Pl) | |
| Targedau gostwng $C0^2$ (lle bo'n briodol) (Ef, An, Au, Pl) | |
| Targedau teithio llesol (Ef, An, Au, Pl) | |
| Cyllido mesurau a nodwyd (adnoddau/ariannol) (Ef, An, Au, Pl) | |
| Cynllun gweithredu gan nodi dyddiadau a chyfrifoldebau (Ef, An, Au, Pl) | |
| Monitro ac adolygu gan gynnwys gweithdrefn a dyddiad cyflwyno (blwyddyn yn ddiweddarach fel arfer) (An, Au, Pl) | |

* Lle telir am filltiroedd, cerbydau fflyd, cerbydau llog neu geir cronfa.
** Dim ond yn berthnasol os yw ar gael.
*** Dim ond yn berthnasol i safleoedd presennol neu lle mae'r defnyddiwr yn hysbys a'r data wedi ei gasglu ymlaen llaw.

# Astudiaethau Achos

## HSBC, Parc Menter, Abertawe – Gwobr Lefel Aur

Dyfarnwyd gwobr aur i HSBC yn 2010 oherwydd eu hymrwymiad yn bwrw ymlaen â'u cynllun teithio:

- Cyflwyno cynllun aberthu cyflog ar gyfer prynu beiciau
- Hyfforddi 40 rheolwr ar y cynllun aberthu cyflog fel bod modd ateb cwestiynau gweithwyr yn gywir
- Cynyddu defnydd o alwadau cynadledda er mwyn lleihau milltiroedd busnes diangen
- Sefydlu a hyrwyddo cynllun parcio a theithio rhad ac am ddim i staff (a ddefnyddir gan dros 100 o weithwyr bob dydd) a gweithio gyda busnesau eraill i'w hannog i ymuno â'r cynllun
- Cofrestru ar gyfer y cynllun 10.10 sef menter lleihau carbon sy'n cynnwys hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy. Rhedeg cystadlaethau mewnol hefyd. Mae HSBC wedi ymrwymo i leihau teithio 10% ar y flwyddyn flaenorol
- Codi hysbysfyrddau teithio
- Mae hyrwyddo'r syniad o rannu ceir yn chwarae rhan fawr hefyd, a'r staff newydd i gyd yn cael eu cyflwyno i'r cynllun rhannu ceir. Caiff y rhai sy'n rhannu ceir eu monitro'n rheolaidd
- Cymerodd 61 o weithwyr ran mewn digwyddiadau beicio yn ystod mis Ebrill a mis Mehefin 2010
- Gweithio gyda Sustrans i edrych ar sefydlu cynllun cronfa feiciau a rhaglen teithio llesol

Mae HSBC yn mynychu fforwm teithio SNITI ar y Parc Menter yn rheolaidd, a thrwy'r fforwm hwn maent yn cefnogi sefydliadau eraill sy'n mynychu.

## Pencadlys Heddlu Dyfed Powys Caerfyrddin – Gwobr Lefel Arian

Mae Heddlu Dyfed Powys wedi cael gwobr arian am eu llwyddiannau hyd yma. Drwy weithio'n galed i wneud cynnydd gyda'r mesurau yn eu cynllun teithio maent yn sicrhau bod y staff i gyd yn cael yr holl wybodaeth am yr hyn mae'r Cynllun Teithio yn ei olygu iddyn nhw a sut mae'n effeithio arnynt.

Yn 2010 gwelwyd gweithredu polisi parcio hollol newydd er mwyn mynd i'r afael â phroblemau parcio ar y safle, darn o waith dewr iawn ond hollol angenrheidiol. Fel rhan o'r cynllun rhoddwyd sylw i'r canlynol.

- Cynhyrchwyd map o'r holl leoedd parcio sydd ar gael. Rhoddir cod lliw i bob ardal a chaiff y rhai sy'n rhannu ceir gerdyn parcio gwahanol i'r ceir un gyrrwr yn unig. Mae gan y rhai sy'n rhannu ceir sicrwydd o le parcio. Mae pawb arall heblaw cerbydau argyfwng ac ati, a deiliaid bathodynnau glas, yn gorfod parcio ar sail y cyntaf i'r felin
- Mae'r lleoedd parcio i rai sy'n rhannu ceir yn boblogaidd iawn gyda'r staff, ac am y rheswm hwnnw mae ffens symudol wedi ei sefydlu er mwyn creu rhagor o leoedd parcio i rai sy'n rhannu a llai i geir un gyrrwr yn unig wrth i amser fynd rhagddo

- Mae diwrnodau cofrestru ar gyfer rhannu ceir wedi bod yn llwyddiannus iawn, a thîm y Cynllun Teithio wrth law i ateb unrhyw ymholiadau neu broblemau sydd gan weithwyr
- Mae cynllun parcio a theithio wedi ei sefydlu i bob hyfforddai a gweithiwr sy'n dod o'r gorllewin ei ddefnyddio
- Mae Heddlu Dyfed Powys yn mynd ati i weithio gyda chyflogwyr eraill yn yr ardal ar fentrau cynllun teithio drwy fforwm Sir Gâr. Maent wedi cefnogi llawer o aelodau'r fforwm, megis y cyngor sir, y bwrdd iechyd lleol a cholegau, drwy gynnig adborth ar arfer gorau yng ngwaith y cynllun teithio
- Caiff pob dull cynaliadwy o deithio eu cefnogi a'u hannog, ac maent yn cael eu hyrwyddo drwy ddigwyddiadau rheolaidd gydol y flwyddyn

## Asiantaeth yr Amgylchedd – De Orllewin, Maes Newydd, Llandarsi (swyddfa ardal) – Gwobr Lefel Platinwm

Mae pob un o swyddfeydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn y de-orllewin yn gweithredu cynlluniau teithio; fodd bynnag, mae safle Maes Newydd wedi achub y blaen ar y gweddill.

Cydnabuwyd hyn ym mis Medi 2010 pan gawsant wobr lefel platinwm i gydnabod eu gwaith parhaus ymhob un o feysydd y cynllun teithio.

Mae'r Asiantaeth yn gweithredu cynllun beicio sy'n golygu y gall gweithwyr gael benthyciadau di-log gan yr Asiantaeth i brynu beiciau at eu defnydd eu hunain. Maent hefyd yn cymryd rhan yn y cynllun beicio cenedlaethol sy'n caniatáu i staff brynu beiciau yn ddi-dreth, drwy gynllun aberthu cyflog, i'w defnyddio i deithio i'r gwaith.

Yn ystod 2009 – 10 beiciodd gweithwyr ardal y de-orllewin gyfanswm o 816 o filltiroedd busnes. Rhwng mis Ebrill a mis Awst 2010, mae gweithwyr yr ardal wedi beicio cyfanswm o 286 milltir fusnes. Mae gan Maes Newydd ddau feic cronfa sy'n cael eu defnyddio ar gyfer teithiau byr sy'n ymwneud â'r gwaith.

Gwnaeth 17 o bobl o swyddfa Maes Newydd ymdrech gyda'i gilydd i adael y car ar ôl a neidio ar eu beiciau ar gyfer wythnos 'Beicio i'r Gwaith' (21 i 25 Mehefin). Beiciodd staff Maes Newydd 871 o filltiroedd yn ystod yr wythnos.

Mae'r Grŵp Defnyddwyr Beiciau ym Maes Newydd, o dan arweiniad y prif drefnwyr Katie Fawcett a Hamish Osborn, yn grŵp egnïol sy'n tyfu o ran niferoedd. Gosododd beicwyr o Grŵp Defnyddwyr Beiciau Maes Newydd darged heriol iddyn nhw eu hunain ar gyfer beicio i'r gwaith yn 2010, sef 10,000 o filltiroedd. Mae 27 o bobl wedi penderfynu wynebu'r her, ac maent wedi chwalu'r targed, gan arbed bron i 1,500kg o $CO^2$, a rhyngddynt maent wedi defnyddio 400,000 o galorïau.

Mae'r gweithgareddau eraill sydd wedi cyfrannu at gyrraedd y wobr platinwm yn cynnwys y canlynol:

- Bellach mae ganddynt ddau le parcio penodedig i rai sy'n rhannu lifft ei ddefnyddio ym maes parcio Maes Newydd, sy'n cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion rhannu lifft
- Drwy rifyn Gorffennaf 2010 o Carbon Copy, sef eu cylchlythyr rheolaeth amgylcheddol electronig mewnol, maent yn hyrwyddo cyfleuster Parcio a Rhannu Dinas a Sir Abertawe yn Felindre
- Hyrwyddo wythnos rhannu lifftiau (4 – 8 Hydref 2010) a chynllun rhannu ceir Asiantaeth yr Amgylchedd (Carbon Copy Medi 2010).
- Drwy fynd ati i fonitro a thrwy gylchlythyr Carbon Copy (rhifyn Mai 2010) buont yn hyrwyddo gyrru effeithlon er mwyn lleihau faint o danwydd a ddefnyddir

## Tystebau

"Mae Cynlluniau Teithio a bod â Chynllun Teithio llwyddiannus yn hanfodol i nodau a strategaethau hirdymor y DVLA i leihau allyriadau carbon oherwydd teithio i'r gwaith."

**Richard Swift DVLA**

"Rydym yn cynnig nifer o ddewisiadau eraill i helpu ein gweithwyr i deithio i'r gwaith ac yn ôl. Rydym yn rhedeg rhaglen rhannu lifftiau 'Admiral yn unig', yn cymryd rhan mewn cynllun 'beicio i'r gwaith' ac yn cynnig benthyciadau ar gyfer tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus.

Gyda chostau trafnidiaeth cyffredinol yn codi, mae'n bwysig fel cwmni ein bod yn gallu cynnig dewisiadau gwahanol i staff a'u cefnogi mewn ffyrdd sy'n iachus, yn gost effeithiol i bawb ac yn ecogyfeillgar."

**Ceri Assiratti, Rheolwr Gwasanaethau Pobl Grŵp Admiral**

# Manylion Cyswllt

## Cysylltiadau Rhanbarthol y Cynllun Teithio

Gall sefydliadau sydd am wneud cais am wobr cynllun teithio Cymru fanteisio ar gyngor gan eich Cydgysylltydd Rhanbarthol ar gyfer y Cynllun Teithio. Cysylltwch ag **activetravel@wales.gsi.gov.uk** i gael rhagor o fanylion.

## Gwybodaeth Bellach a Manylion Cyswllt

BSI PAS 500:2008 Manylebau cenedlaethol cynlluniau teithio

**http://shop.bsigroup.com**

## Pecyn Cymorth Gweithle Llesol Sustrans

**http://www.sustrans.org.uk/what-we-do/active-travel**

## Manylion cyswllt Sustrans

**www.sustrans.org.uk**

## Traveline Cymru

**www.cymraeg.traveline-cymru.info**

## Manylion cyswllt partneriaid

Bydd sefydliadau sy'n datblygu ac yn parhau gwaith cynlluniau teithio yn cysylltu â sawl partner a fydd yn helpu i weithredu'r cynllun teithio. Gallai fod sefydliadau eraill yn yr ardal sydd hefyd yn gweithredu cynlluniau teithio, cwmnïau bysiau a chwmnïau trên, a llawer mwy.

I wneud y gorau o'r broses cynlluniau teithio, bydd Cydgysylltydd Rhanbarthol y Cynllun Teithio yn yr ardal, ynghyd â'r partneriaid Sustrans a Traveline Cymru, yn gallu rhoi cymorth drwy gynnig Hyfforddiant Hyrwyddwr Teithio Doeth a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth eraill os gwnewch gais amdanynt.

## Teithio Llesol

Ar gyfer cefnogaeth partner mewn digwyddiadau:

**www.sustrans.org.uk/cymru**

## Trafnidiaeth Gyhoeddus

Ar gyfer cefnogaeth partner mewn digwyddiadau:

**general@travelinecymru.info**



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 1 4734 1883 7
ISBN digidol 978 1 4734 1885 1
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22561

Eiconau: Icons8, Scott de Jonge a www.freepik.com – www.flaticon.com